**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 3ydd Gorffennaf 2025 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Nigel Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones ac Iwan Thomas.
Clerc: Denfer Morgan

**289 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Gary Evans ac Alwen Thomas a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**290 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8fed Mai 2025**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8fed Mai 2025.

**291 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Gwyn Jones (Archwilydd Mewnol) - £50
Neuadd Bentref Ciliau Aeron (Cyfarfodydd Mehefin 2023-Medi 2024) - £140
Zurich Municipal (Yswiriannau) - £452.23
Archwilio Cymru (Ffi Archwiliad 2022-23) - £352
Archwiliad Cymru (Ffi Archwiliad 2023-24) - £200
*Cyflog y Clerc (Ebrill-Mai-Meh):*
Denfer Morgan - £375.84
CThEF (TWE) - £93.96

**292 Cyfrifon Blynyddol 2024-25**

**PENDERFYNWYD**

**i)** nodi cynnwys Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ar y Cyfrifon ac i weithredu ar y canlynol

- peidio ychwanegu at y lefel o arian wrth-gefn wrth gymeradwyo cyllideb ar gyfer 2025-26
- adolygu a diweddaru'r raglen o asedau sefydlog
- cytuno dileu'r sieciau isod, sef rhai na chafodd eu cyflwyno am sawl blwyddyn

a) siec dyddiedig 8fed Mawrth 2018 – cyfraniad £50 i Samariaid Aberystwyth
b) siec dyddiedig 7fed Chwefror 2019 – cyfraniad i Ysgol Gerdd Ceredigion

**ii)** cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2024-25, fel a archwiliwyd gan yr Archwilydd Mewnol, ar gyfer eu hanfon at Archwilio Cymru.

**293 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio isod:

a) A250352 - Preswylfa, Ciliau Aeron. *Proposed alterations to existing dwelling to include demolition of extension.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

b) b) A250356 - Croesfan, 6 Heol Dolanog, Ciliau Aeron. *Proposed car port and garage/workshop to include demolition of existing garage*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**294 Adroddiad Blynyddol 2024-25**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol drafft a baratow-wyd gan y Clerc a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25.

**295 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys llythyr dyddiedig 25ain Mehefin 2025 oddi wrth y Cyfreithwyr s'yn gweithredu ar ran Awdurdodau'r Eglwys yn dweud eu bod yn dymuno fod y tir yn cael ei gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir cyn bwrw mlaen gyda'r gwerthiant ac i aros i'r camau hyn ddod i ben.

**296 Adolygu Trefniadau Cymunedol Sir Ceredigion**

Nodwyd fod Argymhellion Terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ynghylch yr Adolygiad wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru gyda Chymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle yn cael ei sefydlu gyda 13 Aelod ac yn cynnwys tair ward, sef:

Ward Ciliau Aeron – 4 aelod
Ward Cilcennin – 3 Aelod
Ward Nantcwnlle – 6 Aelod.

Fe fyddai'r trefniadau newydd yn dod i rym gydag etholiadau Mai 227.

**297 Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar Adolygiad o Safleoedd Gwastraff Cartref**

Rhoddwyd ystyriaeth i Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar Adolygiad o Safleoedd Gwastraff Cartref sy'n cynnwys cynnig i gwyfyn Safle Gwastraff Cartref Rhydeinon, hyd nes y bydd yr adolygiad o wasanaethau gwastraff y Cyngor wedi'i gwblhau, a datblygu strategaeth hirdymor ar gyfer Safleoedd

Gwastraff Cartref y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gwrthwynebu'r cynnig am y rhesymau canlynol:

- mae defnydd da i'r safle yn ystod y trefniant tri-diwrnod agor presennol
- gallai arwain at dagfeydd yn y tri safle a fydd yn parhau
- effaith amgylcheddol – fe fyddai cau'r safle ychwanegu at gynnydd yn y teithio gan ddefnyddwyr a chynyddu'r allyriadau o'r cerbydau
- gallai ychwanegu at amser teithio a 'r potenisial i leihau'r hwylustod i ddefnyddiwyr
- pryder y gallai arwain at ragor o dipio anghyfreithlon ar dir preifat a chyhoeddus.

**298 Unrhyw Fater Arall**

a) nodi fod y Warden Llwybrau wedi rhoi gwybod fod grant wedi'i dderbyn ar gyfer cyllido gwelliannau i lwybr troed xxx

b) atgoffa'r Cyngor Sir o gais y Cyngor hwn iddynt weithredu ar y canlynol

- dad-blocio dau ddraen mewn lleoliad a nodwyd ar yr A482
- gosod arwydd ar y groesfan i ddweud fod y ffordd sy'n arwain at y Bont Newydd yn culhau
- gosod arosfan 'baner a pholyn' ar gyffordd Tŷ Mawr.

c) gofyn i'r Cyngor Sir ddelio gyda'r canlynol:

  - coed yn gorhongian dros rhan o'r B4339
  - gordyfiant yn amharu ar weledEdd ar gyffordd Parc Neuadd gyda'r A482

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm